

Polisi, Strategaeth a Phroses Rheoli Risg

1. Polisi Rheoli Risg

1.1 Rheoli Risg - Diffiniad

Diffinnir rheoli risg fel y diwylliant, y gweithdrefnau, y rheolaethau a'r strwythurau sydd wedi'u cyfeirio tuag at reoli newidiadau, cyfleoedd a bygythiadau posibl i gyflawni amcanion busnes y Llyfrgell yn effeithiol, yn amserol ac yn briodol.

1.2 Rheoli Risg - Amcanion

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cydnabod bod risgiau'n gysylltiedig â'i gweithgareddau. Mae angen i unrhyw sefydliad wybod ble mae unrhyw risgiau posibl a allai ei atal rhag parhau i wneud yn dda yn y dyfodol. Gall penderfynu'n bositif i beidio â gwneud rhywbeth fod yn opsiwn, ond mae deall pwysigrwydd rheoli risg yn weithredol yn hanfodol ar bob lefel o sefydliad.

Mae ymgorffori cynllunio fel rhan o weithgaredd o ddydd i ddydd yn allweddol i ddeall risg a lliniaru ei debygolrwydd a'i effaith. Fel rhan o ddull llywodraethu da mae rheolaethau mewnol da ac ymrwymiad gan uwch reolwyr yn rhagofynion; ond y gymuned gyfan o staff, sy'n deall y busnes yn dda, sy'n gallu dylunio, cyflawni ac ymdrechu i wella rheolaeth y risgiau a nodwyd fel rhan o'u gweithgareddau arferol yn barhaus. Er y cydnabyddir na ellir dileu risg yn llwyr, bydd y Llyfrgell yn rheoli ei risgiau er mwyn:

- Sicrhau cydymffurfiaid â rhwymedigaethau statudol, llywodraethiant corfforaethol da a gofynion Llywodraeth Cymru
- Cydymffurfio â deddfwriaeth elusennau a chwrdd â gofynion fel ymddiriedolwyr elusennau.
- Cadw a gwella'r modd y darperir gwasanaethau
- Diogelu ei gweithwyr, ymwelwyr a defnyddwyr, a phob person arall y mae gan y Llyfrgell ddyletswydd gofal iddo
- Amddiffyn eiddo'r Llyfrgell gan gynnwys y casgliadau, yr adeiladau a'r offer
- Cynnal rheolaeth effeithiol ar ei chyllid

Cyflawnir yr amcanion hyn trwy nodi, dadansoddi a gwerthuso'n systematig, rheoli a monitro risg yn gost-effeithiol sy'n peryglu pobl, eiddo, enw da a sefydlogrwydd ariannol y Llyfrgell. Rhestrir y risgiau hyn yn y "Gofrestr Risg Gorfporaethol" a fydd yn cael ei diweddarau ar gyfer pob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

2. Strategaeth Rheoli Risg

2.1 Archwaeth Risg

Gellir diffinio archwaeth risg fel maint a math y risg y mae sefydliad yn barod i'w chymryd er mwyn cyflawni ei amcanion strategol .

Rhaid i'r Llyfrgell ddiffinio ei hagwedd atrisg weddilliol er mwyn gallu alinio ei phrosesau rheoli risg â'i hamcanion. Y risg weddilliol yw faint o risg neu berygl sy'n gysylltiedig â gweithred neu ddigwyddiad sy'n weddill ar ôl i risgiau naturiol neu gynhenid gael eu lleihau gan reolaethau risg.

Er mwyn rhoi hyn mewn rhyw fath o gyd-destun, ni all y Llyfrgell fforddio bod mor wrth-risg â'r Gwasanaeth Sifil, er enghraifft. Mae hyn oherwydd ei fod yn arweinydd mewn llawer o feysydd arbenigol fel digideiddio lle mae angen arbrofi ac yn anochel bydd rhai methiannau, a hefyd mae pwysau cyson i wneud y mwyaf o wasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd a lleihau'r gost gysylltiedig i'r eithaf.

O ganlyniad, mae'r Llyfrgell yn barod i gymryd lefel uwch o risg mewn rhai meysydd sydd ar flaen y gad o ran datblygiad technolegol, wrth dderbyn y gall fod rhai canlyniadau negyddol o bryd i'w gilydd. Fodd bynnag, nid yw'r Llyfrgell y fath o sefydliad a all fforddio bod yn ddi-hid gan fod ganddo ei enw da i'w gynnal ac mae'n cael ei ariannu i raddau helaeth o'r pwrs cyhoeddus. O ganlyniad, mewn meysydd fel cydymffurfio â deddfwriaeth neu amodau a osodir gan Lywodraeth Cymru, bydd bob amser yn ceisio cydymffurfio yn ddieithriad.

2.2 Rôl a Chyfrifoldeb

Cyfrifoldeb aelodau'r Bwrdd, aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Risg , a Chyfarwyddwyr a Rheolwyr ar bob lefel o'r Llyfrgell yw sicrhau bod risgiau'n cael eu deall a'u rheoli'n briodol.

Mae'r rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer rheoli risg fel a ganlyn:

2.2.1 Y Bwrdd

Y Bwrdd sydd â'r cyfrifoldeb eithaf am reoli risg ac maent wedi dirprwyo cyfrifoldeb goruchwyllo i'r Pwyllgor Archwilio a Risg . Bydd y Bwrdd yn derbyn adroddiad ar y gofrestr risg o leiaf unwaith y flwyddyn. Bydd hefyd yn cael ei ddiweddarau ar y risgiau y mae'r Llyfrgell yn eu rheoli trwy adroddiadau a gyflwynir iddi gan y Tîm Gweithredol (TG), e.e. megis monitro cyllideb ac adroddiadau cynllunio ariannol, perfformiad yn erbyn targedau a materion sy'n ymwneud â llywodraethiant corfforaethol. Bydd y Bwrdd hefyd yn cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethiant Corfforaethol blynyddol yn y datganiadau ariannol, sy'n gofyn am gyfeiriad penodol at reoli risg.

2.2.2 Y Pwyllgor Archwilio a Risg

Bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn cyflawni swyddogaeth fonitro ac yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar reoli risg yn y Llyfrgell. Rhaid i aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Risg gymryd rhan weithredol yn y broses rheoli risg a chânt eu gwahodd o bryd i'w gilydd i gynnal trafodaeth fanwl ar y gofrestr risg.

2.2.3 Y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd

Bydd y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd, fel Swyddog Cyfrifyddu, yn gyfrifol am sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli o ddydd i ddydd yn y Llyfrgell ac yn sicrhau bod y Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu o bryd i'w gilydd fel rhan o waith cyfarfodydd y TG. Bydd yn ofynnol iddo ef/hi lofnodi datganiad yng nghyfrifon blynyddol y Llyfrgell i gadarnhau bod y Llyfrgell wedi cyflwyno safonau priodol o lywodraethiant corfforaethol gan gynnwys rheoli risgiau .

2.2.4 Cyfarwyddwyr a Phennaeth Adran

Cyfarwyddwyr a Phennaeth yr Adran fydd yn gyfrifol am gydlynu'r adolygiad cyfnodol o'r Gofrestr Risg o fewn eu Hadran. Byddant yn gyfrifol am reoli'r risgiau sydd wedi eu neilltuo iddynt yn y gofrestr. Byddant yn sicrhau bod eu staff yn atebol am y risgiau yn eu maes penodol o weithgaredd ac yn monitro eu perfformiad o reoli'r risgiau hynny.

2.2.5 Rheolwyr a Staff

Bydd rheolwyr a staff yn gyfrifol am reoli risg yn effeithiol yn eu maes gweithgaredd penodol. Gellir defnyddio'r sesiynau "Briffio Tîm" fel ffordd o drosglwyddo gwybodaeth ynghylch rheoli risgiau i uwch reolwyr ond mae'n ofynnol i staff adrodd risgiau allweddol i lefel briodol o reolwyr wrth iddynt godi.

2.2.6 Pennaeth Cyllid a Menter

Pennaeth Cyllid a Menter fydd yn gyfrifol am gyd - drefnu'r adolygiad a chrynhoi Cofrestr Risg y Llyfrgell.

2.2.7 Archwiliad Mewnol

Bydd Archwilio Mewnol yn gyfrifol am yr adolygiad annibynnol o'r system rheoli risg yn unol â'r Cynllun Archwilio.

3. Y Broses Rheoli Risg

3.1 Gweithdrefn ar gyfer Adnabod Risgiau

Bydd y Gofrestr Risg yn cynnwys:

- Disgrifiad o'r risg allweddol a nodwyd
- Y sicrwydd a'r rheolaethau sydd ar waith i liniaru'r risg
- Yr amcanion strategol y mae'r risg yn effeithio arnynt
- Dosbarthiad y risg yn ôl math / effaith / tebygolrwydd
- Asesiad o faint y risg trwy ddyrannu "sgôr risg"

Asesir cryfder y rheolyddion yn ôl tri chategori - isel, canolig ac uchel. Bydd bylchau mewn rheolyddion a sicrwydd hefyd yn cael eu nodi. Bydd y ffactorau hyn yn cael eu hystyried wrth asesu'r sgôr risg. Y sgôr risg fydd asesiad o faint y risg (allan o 25 (5 ar gyfer tebygolrwydd a 5 ar gyfer tebygolrwydd) . Bydd y Gofrestr Risg hefyd yn nodi pwy sy'n gyfrifol am fonitro'r risg, yr amserlen ar gyfer gweithredu unrhyw sicrwydd i liniaru yn erbyn effaith y risg ac asesiad o'r tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd.

a. Alinio risgiau â'r Amcanion Strategol

Rhaid i brosesau rheoli risg gael eu halinio a nodau strategol y Llyfrgell fel y nodwyd yn y Cynllun Strategol. Mae asesiad o'n gallu i gyflawni'r nodau hyn yn sail i'r asesiad o risg yn y Llyfrgell.

b. Dyrannu perchennog risg

Ar lefel Llyfrgell, dosrannir risgiau ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol i aelod o'r Tîm Gweithredol, yn unol â'u portffolio.

Ar lefel Adrannol, dylid nodi 'perchennog' yn yr un modd ar gyfer pob risg. Y perchennog risg yw'r person sy'n gyfrifol am asesu, rheoli ac adrodd ar y risg, er y gallant ddirprwyo gweithredu i'r staff priodol.

c. Diffinio'r risgiau

Mae ein hamcanion corfforaethol yn nodi'r hyn yr ydym am ei gyflawni fel Llyfrgell, neu fel Adran. Yn y broses Rheoli Risg, mae'n rhaid i ni nodi pa risgiau a allai effeithio ar y canlyniadau a ddymunir. Felly, dylid nodi 'is-risgiau' adrannol mewn perthynas â chyflawni amcanion strategol a rhai lleol. Gellir diffinio is-risgiau fel:

'Risgiau i gyflawni cynlluniau Llyfrgell / Adran neu'r Amcanion Strategol yn llwyddiannus .'

Wrth ddiffinio risg o fewn meysydd risg, gallai fod yn ddefnyddiol meddwl am yr hyn sy'n newid, yn fewnol ac yn allanol, er enghraifft newidiadau yn y dull dysgu ac addysgu, strwythur rheoli, ffioedd dysgu. Chwiliwch am risgiau newydd, ynghyd â newidiadau i'r risgiau cyfredol. Meddylwch am:

Mewnol :

- staff
- y gymuned
- undebau llafur
- sefydliadau partner
- llunwyr polisi a gweinyddwyr
- cyflogwyr
- cyflenwyr
- newidiadau sefydliadol

Allanol :

- newidiadau cyfreithiol a gwleidyddol
- cyrff cyllido a rheoleiddwyr
- effaith toriadau a newidiadau cyllid
- datblygiadau polisi

Er mwyn hwyluso'r broses o nodi risgiau, dylid cyfathrebu amcanion strategol a lleol yn barhaus a'u cadw ar flaen y gad o ran gweithgaredd beunyddiol. Fel hyn, mae'n haws nodi'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â chyflawni'ch amcanion. Defnyddiwch dull "bwrw rhwyd eang" i nodi sbectwm eang o risgiau a gwahodd safbwyntiau lluosog ac amrywiol.

3.2 Amserlen

Bydd y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael ei hadolygu cyn pob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg. a'i gyflwyno i'r Pwyllgor hwnnw. Dylid adolygu Cofrestrau Risg Adranol bob 3 mis a'u hymgorffori yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol os yw'r risg yn effeithio ar y Llyfrgell gyfan.

Tua 6 wythnos cyn dyddiad yr adolygiad, bydd y Pennaeth Cyllid a Menter yn cylchredeg y copi diweddaraf o'r gofrestr i'r Tîm Gweithredol (TG). Bydd diwygiadau i'r gofrestr yn cael eu coladu gan Bennaeth Cyllid a Menter a chymeradwyir y gofrestr ddiwygiedig yng nghyfarfod nesaf o'r TG.

3.3 Cofrestrau Risg Prosiect

Bydd yn ofynnol i brosiectau mewnol sy'n cynrychioli risg sylweddol i'r Llyfrgell i gynnal cofrestr risg manwl sy'n gysylltiedig â'r prosiect. Bydd hyn ar wahân i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, ond bydd risgiau prosiect sydd o faint sylweddol hefyd yn cael eu cynnwys ar y gofrestr hon.